## Gweithgaredd Dysgu- Cam Cynnydd 4

Mae'r adnodd hwn yn darparu gweithgareddau dysgu ar gyfer eich myfyrwyr, gan ddefnyddio Casgliad y Werin Cymru. Mae'n un o gyfres o naw yn ymwneud â Phatagonia ar gyfer CC4.

Sefydlu'r Wladfa Gymreig ym Mhatagonia
**Mordaith y 'Mimosa', 1865**
Brodorion Patagonia a'r gwladfawyr Cymreig
Dyddiau cynnar ar dir Patagonia
O ddyffryn Camwy i Gwm Hyfryd - Patagonia
Dyddiau du - llifogydd ac allfudo
Ysgolion cynnar y Wladfa
Hanes yr Iaith Gymraeg ym Mhatagonia
Capeli ac eglwysi'r Wladfa

# Mordaith y 'Mimosa', 1865

## Gan Culturenet Cymru

## Cyflwyniad

*' ... Mai 28 [1865], codwyd yr angor i ffarwelio gwlad ein genedigaeth' Thomas Jones, Glan Camwy*

**Tasgau ac amcanion dysgu**


1. Mannau geni'r ymfudwyr cyntaf
2. Rhesymau dros ymfudo
3. Y daith a'i thrafferthion
4. Ysgrifennu sgript - Y Mudo
5. Glanio ar y traethau
6. Sgiliau er mwyn sefydlu gwladfa
7. Dyddlyfr Richard Ellis
8. Misoedd cyntaf ym Mhatagonia

Lawrlwytho'r Casgliad o ddelweddau a thaflenni gwaith ar gyfer y gweithgaredd hwn o Gasgliad y Werin Cymru

# Mordaith y 'Mimosa', 1865

*' ... Mai 28 [1865], codwyd yr angor i ffarwelio â gwlad ein genedigaeth.' Thomas Jones, Glan Camwy*

Ar 28 Mai 1865, cychwynnodd y fintai o ymfudwyr Cymreig ar eu taith hir o Lerpwl i Batagonia. Er bod y 150 o deithwyr a oedd ar fwrdd y 'Mimosa' yn siwr o fod yn teimlo'n bryderus yngl~n â'r fordaith, buasent hefyd wedi bod yn falch bod yr holl ddisgwyl drosodd a'u bod yn cychwyn eu siwrnai i Dde America.


No. 4

CAMBRIAN EMIGRATION OFFICE, 41, UNION STREET, LIVERPOOL.

PASSENGERS' CONTRACT TICKET.

1. A Contract Ticket in this Form must be given to every Passenger engaging a Passage from the United Kingdom to any Place out of Europe, and not being within the Mediterranean Sea.
2. The Victualling Scale for the Voyage must be printed in the Body of the Ticket.
3. All the Blanks must be correctly filled in, and the Ticket must be legibly signed with the Christian Names and Surname and Address in full of the Party issuing the same.
4. The Day of the Month on which the Passengers are to embark must be inserted in words and not in figures.
5. When once issued, this Ticket must not be withdrawn from the Passenger, nor any alteration, addition or erasure made in it.

Ship Mimosa of 450 tons register, to take in Passengers at Liverpool, for New Bay on the Fifteenth day of May 1865

| NAMES. | AGES. | EQUAL TO STATUTE ADULTS. |
|---|---|---|
| Abraham Matthews | 32 | |
| Gwen do | 23 | |
| Mary A do | Inf | |
| Mary Johns | 24 | |
| John Thomas | 18 | |
| | | 4 |

I engage that the Persons named in the margin hereof shall be provided with a Steerage Passage to, and shall be landed at the Port of New Bay in South America, in the Ship Mimosa with not less than 10 cubic feet for luggage for each statute adult, and shall be victualled during the voyage and the time of detention at any place before its termination, according to the subjoined scale, for the sum of £ ..., including Government Dues before Embarkation, and Head Money, if any, at the Place of Landing, and every other charge, except freight for excess of luggage beyond the quantity above specified, and I hereby acknowledge to have received the sum of £ ... in full payment.

Signature in full James Lamb

On behalf of JAMES LAMB, of Liverpool.

LIVERPOOL, ... day of May 1865

Deposit £

Balance £ ... to be paid at the Office, 41, Union-st., Liverpool, one day before the above date for sailing, or deposit forfeited.

Total £

NOTICE TO PASSENGERS.

1. If Passengers, through no default of their own, are not received on board on the day named in their Contract Tickets, or fail to obtain a Passage in the Ship, they should apply to the Government Emigration Officer at the Port, who will assist them in obtaining redress under the Passengers Act.
2. Passengers should carefully keep this part of their Contract Ticket till after the end of the voyage.


N. B.—This Contract Ticket is exempt from Stamp Duty.

*Tocyn y Parch. Abraham Matthews, un o'r teithwyr ar long y 'Mimosa', 15 Mai 1865*

Roedd nifer o'r teithwyr wedi treulio dros bedair wythnos yn Lerpwl. Y bwriad gwreiddiol oedd i'r 'Halton Castle' hwylio ar 25 Ebrill 1865, ond, ar y funud olaf, hysbyswyd y trefnwyr nad oedd y llong honno wedi dychwelyd o'i mordaith flaenorol, ac na fyddai'n barod i adael ar y dyddiad a drefnwyd. Pan dderbyniwyd y newyddion hwn, penderfynodd rhai o'r teithwyr dorri pob cysylltiad â'r fenter. Nid oedd rhai o'r teuluoedd a oedd yn disgwyl am gludiad i Batagonia yn gallu fforddio aros yn Lerpwl, ac felly cawsant fenthyg arian gan Michael D. Jones a'i wraig Anne i dalu am fwyd a llety. Yn y cyfamser, llwyddodd y Pwyllgor Ymfudol i logi'r 'Mimosa', llong a fu yn y fasnach de, i wneud y daith i Batagonia.

Ar 24 Mai, cafodd y teithwyr ganiatâd i fynd ar fwrdd y 'Mimosa'. Deuai nifer ohonynt o ardaloedd diwydiannol Aberpennar ac Aberdâr, a lleiafrif oedd wedi dod o ardaloedd amaethyddol. Yn ogystal â glowyr a chwarelwyr, roedd y fintai gyntaf yn cynnwys ysgolfeistr, pregethwr, adeiladwr, a meddyg. Cyn gadael, penderfynwyd ethol Cyngor y Wladychfa. Roedd deuddeng aelod ar y Cyngor, ac etholwyd llywydd, ysgrifennydd, trysorydd, ac arolygydd y cyfrifon yn ychwanegol at hynny. Ar 25 Mai, cyhoeddodd y Capten George Pepperrell, g|r ifanc 25 oed, fod yr angor ar fin ei chodi. Roedd cannoedd o bobl wedi ymgynnull ar y lan i ffarwelio â'r ymfudwyr, gan gynnwys Michael D. Jones a'i wraig, Anne.

Codwyd baner y Ddraig Goch, a chanodd y teithwyr gân a gyfansoddwyd yn arbennig ar gyfer yr achlysur ar dôn 'God Save the Queen'. Ar ôl symud i ganol Afon Merswy, bu'r 'Mimosa' yn gorwedd yno'n llonydd am dridiau yn disgwyl am wyntoedd ffafriol. O'r diwedd, am bedwar o'r gloch y prynhawn ar 28 Mai, codwyd yr angor a dechreuodd y 'Mimosa' ar ei thaith i Batagonia.


Received from Mr Michael Jones of Bala
Per Mr Owen Edwards, this 14th day of
December 1865 the sum of
Seventy pounds on account of
fitting up Berths for Emigrants
on board the "Mimosa"
Per R. Evans & Co
J Robinson
£70:0:0
ONE PENNY

Derbynneb oddi wrth Evans & Robinson, Lerpwl, at y Parch. Michael D. Jones, 14 Rhagfyr 1865

Cafodd y teithwyr ddechrau digon helbulus i'r daith - yn fuan wedi iddynt adael Afon Merswy, cafwyd gwyntoedd cryfion a bu tonnau gwyllt yn taro'r llong. Wedi hynny, bu pethau yn eithaf tawel tra'n croesi Môr Iwerydd, hyd nes iddynt gael storm nerthol ger arfordir Brasil. Yn ogystal â'r tywydd garw, bu rhaid i deithwyr ymdopi gydag undonedd bywyd ar y môr ac ansawdd gwael y bwyd a'r cyfleusterau. Cafwyd peth helynt pan orchmynnodd y Capten y dylid golchi a thorri gwalltiau'r merched. Ychydig a wyddom am amodau ar y llong, ond trawyd sawl teithiwr yn wael a bu farw pedwar o blant yn ystod y fordaith.



Catherine Davies a'i phlant, a ymfudodd i Batagonia ar fwrdd y 'Mimosa', c. 1865

O bryd i'w gilydd, bu achos i ddathlu ar y 'Mimosa'.

Ar 11 Mehefin, ganed mab i Mary a John Jones, Aberpennar, ac enwyd ef yn Morgan. Ar 15 Mehefin, ychydig ddyddiau wedi iddynt golli mab dyflwydd oed o'r enw James, cafodd Aaron a Rachel Jenkins o Aberpennar ferch fach a enwyd yn Rachel. Hefyd, priododd William ac Anne Lewis o Abergynolwyn ar fwrdd y llong, a bu'r gwasanaeth yng ngofal y Parchedig Lewis Humphreys.

Cafwyd rhywfaint o hwyl ac adloniant ar y fwrdd y 'Mimosa' hefyd. Byddai teithwyr yn casglu gyda'i gilydd i rannu straeon a chanu. Wrth groesi'r cyhydedd ar 28 Mehefin, cafodd nifer ohonynt gryn hwyl yn gwylio aelodau'r criw yn dathlu'r garreg filltir bwysig hon. Fel hyn yr ysgrifennodd John Seth Jones am yr achlysur yn ei ddyddiadur:

'Dau forwr wisgo barfau gwneyd llaesion o ryw fân reffynau (carth hir); taflu tân gwyllt i fyny; y morwyr yn taflu bwceidiau o ddwfr am benau eu gilydd, &c. Cymerodd yr arferiad yma le y noson hon. Tywalltwyd dwfr am ben yr holl ymfudwyr braidd, oddigerth y merched a'r plant. Cefais i oddeutu tri bwcedaid am fy mhen heblaw tipyn ar draws ac ar hyd. Eis i lawr ychydig cyn iddynt ddarfod, yr hyn a gymmerodd le cyn naw. Arosais hyd oni ddaeth goleuni i mi fyned i'm gwely, ac yna eis i'm gwely hyd y boreu. Wedi darfod gyda lluchio y dwfr, buwyd yn gyru rockets i fyny, ac aeth amryw i fyny. Wedy'n bu amryw o'r rhai mwyaf respectable gyda'r cadben yn y cabbin yn yfed, a dywedir bod amryw o honynt yn bur llawn y rhai nid ydynt ysgrifenedig yn y llyfr hwn.'

Ar 26 Gorffennaf, wedi bron i ddeufis ar y môr, cyhoeddodd un o'r criw fod tir yn y golwg. Cyrhaeddodd y llong y Bae Newydd y noson honno a daeth y teithwyr i'r dec i ddisgwyl am yr olygfa gyntaf o'r tir wrth i'r wawr dorri. Y diwrnod canlynol, gwelwyd llong o'r enw 'Juno' gerllaw, ac aeth y Capten a Watkin P. Williams ati mewn cwch bach. Dychwelodd y cwch at y 'Mimosa' ymhen ychydig, gyda Lewis Jones ar ei fwrdd. Galwyd arno i annerch y teithwyr, a bu gorfoleddu mawr. Wedi iddo ddychwelyd i'w long, aeth y 'Mimosa' yn ei blaen i fwrw angor yn y Bae. Aeth criw bychan o ddynion i'r lan y noson honno, ond bu'n rhaid i weddill y teithwyr ddisgwyl am ddiwrnod arall cyn cael y cyfle cyntaf i roi troed ar dir Patagonia.

Ffynonellau

R. Bryn Williams, Y Wladfa (Caerydd, 1962)

E. MacDonald, Dyddiadur Mimosa (Llanrwst, 2002)

# Mordaith y 'Mimosa', 1865

## 1. Mannau geni'r ymfudwyr cyntaf

Gosodwch faneri bychan ar fap o Gymru sy'n dynodi mannau geni'r ymfudwyr cyntaf. A welwch chi batrwm? Ceisiwch esbonio.

*Cwblhewch y daflen waith - Yr Ymfudwyr Cyntaf*

## 2. Rhesymau dros ymfudo

Dewiswch ddau unigolyn o'r ffotograff. Ysgrifennwch benawdau i egluro eu rhesymau dros ymfudo.

*Cwblhewch y daflen waith - Ymfudiad*

## 3. Y daith a'i thrafferthion

Pa fath o drafferthion fyddai'r ymfudwyr wedi eu wynebu wrth fyw ar y Mimosa am ddeufis?

## 4. Ysgrifennu sgript - Y Mudo

Defnyddiwch ffrwyth eich ymchwil i ysgrifennu sgript o dan y teitl 'Y Mudo'.

*Cwblhewch y daflen waith - Sgript - Y Mudo*

## 5. Glanio ar y traethau

Dychmygwch eich bod ar y fordaith gyntaf ac yn glanio ar draethau Bae Newydd ar 28 Gorffennaf 1865. Beth fyddai eich blaenoriaethau wedi i chi gyrraedd?

*Cwblhewch y daflen waith - Yr Hen Amddiffynfa, 28 Gorffennaf 1890*

.

# Mordaith y 'Mimosa', 1865

## 6. Sgiliau er mwyn sefydlu gwladfa

Pa sgiliau fyddai eu hangen ar yr ymfudwyr er mwyn sefydlu gwladfa ym Mhatagonia?

*Cwblhewch y daflen waith - 28 Gorffennaf 1865*

## 7. Dyddlyfr Richard Ellis

Darllenwch y detholiad o ddyddlyfr Richard Ellis 1865 - 1867.

*Darllenwch - Dyddlyfr Richard Ellis (rhan 1)*

## 8. Misoedd cyntaf ym Mhatagonia

Awgrymwch sut oedden nhw'n medru dilladu a bwydo eu hunain yn y misoedd cyntaf ym Mhatagonia.

*Darllenwch - Dyddlyfr Richard Ellis (rhan 2)*

# Yr Ymfudwyr Cyntaf



Hawlfraint: Culturenet Cymru - gellir ei gopio am ddim at ddiben ysgolion
http://www.glaniad.com/addysg

# Ymfudiad



Dewiswch ddau unigolyn o'r ffotograff. Ysgrifennwch benawdau yn egluro eu rhesymau dros ymfudo.


Hawlfraint: Culturenet Cymru - gellir ei gopio am ddim at ddiben ysgolion
http://www.glaniad.com/addysg

# Sgript – Y Mudo




Hawlfraint: Culturenet Cymru - gellir ei gopio am ddim at ddiben ysgolion
http://www.glaniad.com/addysg

# Rhai aelodau o’r fintai gyntaf o ymfudwyr gerllaw ‘Yr Hen Amddiffynfa’, 28 Gorffennaf 1890




Eich blaenoriaethau:

Hawlfraint: Culturenet Cymru - gellir ei gopio am ddim at ddiben ysgolion
http://www.glaniad.com/addysg

# 28 Gorffennaf 1865

Pa sgiliau fyddai eu hangen ar y fintai i sefydlu gwladfa ym Mhatagonia?




| Sgiliau | I beth? |
| --- | --- |
| | |

Hawlfraint: Culturenet Cymru - gellir ei gopïo am ddim at ddiben ysgolion
http://www.glaniad.com/addysg

# Dyddlyfr Richard Ellis

Cadwodd Richard Ellis ei ddyddlyfr am 51 mlynedd, o 1865 i 1916. Er mai ychydig iawn o fanylion a geir yn y dyddlyfr, mae cofnodion Ellis yn cynnig cipolwg ar fywyd beunyddiol y sefydlwyr Cymreig. Crybwyllir digwyddiadau pwysig yn hanes y Wladfa, megis Glaniad y 'Mimosa' ar 28 Gorffennaf 1865, y cysylltiad cyntaf â'r brodorion yn Ebrill 1866, a'r frwydr barhaus i dyfu cnydau.








Hawlfraint: Culturenet Cymru - gellir ei gopio am ddim at ddiben ysgolion
http://www.glaniad.com/addysg


# Dyddlyfr Richard Ellis

| | |
|---|---|
| 1865 | |
| 13eg Ebrill | Priodi |
| 28ain Mai | Gadael afon Merswy am Batagonia ar y Bad Mimosa |
| 28ain Gorffennaf | Bwrw angor New Bay |
| 30ain Gorffennaf | Glanio ym Mhatagonia |
| 9fed Awst | Y daith gyntaf am Chupat |
| 12fed Awst | dod ar draws tywodfaen ym mhen y dyffryn isaf. 14eg - cyrraedd y gaer - dychwelyd ar yr 16eg awst |
| 14eg Awst | cyrraedd y gaer |
| 16eg Awst | dychwelyd |
| 17eg Awst | cyrraedd Bae Newydd |
| 29ain Medi | Mrs Ellis a Hannah yn cyrraedd Chubut ar sgwner Captain Woods |
| 8fed Tachwedd | Llwyddo i gael un fuwch (?) |
| 15fed Tachwedd | Corddi am y tro cyntaf |
| 17 Tachwedd | Mr Wm Davies yn cychwyn am B. Aires |
| 1866 | |
| 28ain Chwefror | Mr Wm Davies yn dychwelyd o B.A. gyda sgwner bach |
| 7fed Mawrth | Derbyn. Anrheg dymunol o ferch Mary Anne. Bedyddiwyd Ebrill 1af gan y Parchedig Abraham Mathews |
| 19eg Ebrill | Ymweliad cyntaf gan ddau Indiad |
| 24ain Ebrill | gwersyllodd y teulu ger Plas Heddwch |
| 2ail, 3ydd, 4ydd Mawrth | plannu hadau |
| 12fed Mawrth | fy mrawd J. a minnau yn lladd pwma |
| 17eg Awst | Llwyth cyntaf o Indiaid ar ochr ddeheuol yr afon |
| 20fed Awst | daeth ail lwyth o Indiaid i lawr yr ochr ogleddol |
| 17eg Hydref | J Ellis ac eraill yn mynd ar daith anturio |
| 21ain Hydref | barrug yn difetha'r tatws, coed bach a phwmpenni am y tro cyntaf |
| 9fed Rhagfyr | Daeth Ffrancwr i'r wladfa o wersyll (?) |
| 1867 | |
| 7fed Awst | Mrs Ellis a minnau yn gadael New Bay ar sgwner am Batagones cyrraedd yno ar 11eg |





Hawlfraint: Culturenet Cymru - gellir ei gopio am ddim at ddiben ysgolion
http://www.glaniad.com/addysg